# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Maesteilo**

**Cartref Gofal Maesteilo**
**Capel Isaac**
**Llandeilo**
**SA19 7TG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Maesteilo

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Mehefin 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus iawn yng Nghartref Gofal Maesteilo a gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden. Mae'r bobl yn byw bywydau hapus a boddhaus ac maent yn gwneud amrywiaeth eang o bethau sy'n bwysig iddynt. Caiff pob unigolyn ei annog i wneud ei benderfyniadau ei hun am sut i dreulio ei amser. Mae tîm o staff sefydledig ac ymrwymedig yn hyrwyddo awyrgylch hamddenol sy'n helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus.

Mae pob un o'r cyflogeion yn dangos dealltwriaeth dda o'r bobl yn y cartref ac mae'r cofnodion gofal yn disgrifio sut y dylai'r gweithwyr gofal ddiwallu anghenion pob unigolyn yn glir. Mae'r tîm o staff brwdfrydig am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan lawn ym mhob trafodaeth am eu cymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr ac uwch-aelodau eraill o'r staff. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd cadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'r gweithwyr gofal yn rheolaidd i gael adborth ar y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl yng Nghartref Gofal Maesteilo reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn gwahodd y bobl i gymryd rhan yn eu trefniadau cymorth. Nid yw'r rheolwr yn trefnu cyfarfodydd tŷ er mwyn i'r bobl drafod unrhyw faterion y maent am eu codi am fod y bobl yn dweud nad ydynt am iddynt gael eu cynnal. Yn lle hynny, mae'r rheolwr yn sicrhau bod pob unigolyn yn cwrdd ag un o'i ddau weithiwr allweddol bob mis i wneud cynlluniau ar gyfer ei fywyd cymdeithasol a thrafod unrhyw bryderon a all fod ganddo. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys dewisiadau personol a chefndir y bobl maent yn eu disgrifio. Mae'r rheolwr yn rhoi copi o'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth i'r bobl pan fyddant yn cyrraedd; mae'r canllaw hwn yn rhoi manylion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl, yn ogystal â manylion am y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. At hynny, mae'r bobl yn defnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol pan fyddant am gael cymorth mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl wedi ymlacio, yn gyfforddus ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac mae pob unigolyn mor egnïol ag y mae'n dymuno bod. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn hobïau o bob math, megis sesiynau crochenwaith, garddio, gwaith pren a chelf a chrefft o bob math. Gwnaethom siarad â rhai pobl a oedd wrthi'n paratoi i fynd am bryd o fwyd fel grŵp i ddathlu'r Nadolig yng Nghaerfyrddin gyda'u perthnasau a'u ffrindiau ac a oedd yn llawn cyffro am y digwyddiad. Gwnaethom hefyd siarad ag un gweithiwr gofal brwdfrydig sydd wrthi'n creu llwybr drwy ardal o goetir sydd wedi tyfu'n wyllt wrth ymyl y prif dŷ er mwyn darparu ardal goetir i'r bobl gerdded drwyddi ac ardaloedd ar gyfer amser meddwl tawel ac i ymlacio. Mae'r bobl yn fwy na pharod i gymryd rhan yn y gweithgareddau hamdden hyn.

Mae'r bobl yn cael eu hannog i bersonoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau. Gwnaethom gyfarfod ag unigolyn a ddangosodd y papur wal lliwgar newydd yn ei lolfa a'i ystafell wely. Mae'r rheolwr yn ceisio paru sgiliau a diddordebau'r gweithwyr gofal â'r bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt: mae un unigolyn wedi adeiladu model ardderchog o reilffordd sy'n cynnwys bryniau, rhaeadrau a thwneli ac mae unigolyn arall yn cadw'n brysur yn creu arwyddion mawr drwy losgi enwau ar ddarnau o bren ar gyfer cartrefi gofal eraill y darparwr yn yr ardal. Drwy wneud hyn, caiff y bobl eu hannog i ddilyn unrhyw ddiddordebau sydd ganddynt a chânt eu cefnogi gan weithwyr gofal â diddordebau tebyg sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn gweithio ochr yn ochr â nhw mewn ffyrdd cadarnhaol, ac yn cael sgyrsiau hwyliog â nhw.

## Gofal a Chymorth

Ar y cyfan, mae gan y bobl gynlluniau cywir sy'n nodi sut mae'r gwasanaeth yn darparu eu cymorth. Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gallu diwallu anghenion y bobl. Mae system cofnodi fanwl yn darparu cofnod clir o drefniadau cymorth y bobl. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn disgrifio ymyriadau iechyd. Mae'r gweithwyr allweddol ac uwch-aelodau o'r staff yn adolygu pob dogfen yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol. Mae asesiadau o iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac asesiadau risg cyfredol yn helpu'r bobl i fod yn annibynnol.

Mae'r gweithwyr gofal yn gefnogol ac yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffyrdd cadarnhaol, i'w hannog i gadw'n bositif ac yn iach. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi digon o amser i'r bobl drafod unrhyw bryderon yn rheolaidd hefyd: dyma un agwedd sydd wedi cael effaith wirioneddol wrth leihau nifer yr achosion lle roedd angen atal y bobl yn gorfforol rhag achosi niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill. Mae'r rheolwr yn falch o'r tîm o staff a'r ffordd y llwyddwyd i gyflawni hyn am ei fod wedi gwella ansawdd bywyd y bobl yn sylweddol. At hynny, mae'r tîm o staff yn defnyddio ffyrdd creadigol i gael gwybod barn y bobl na fyddent yn gallu gwneud dewisiadau fel arall o bosibl.

Dywed y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel, a bod y cyflogeion yn amddiffyn eu preifatrwydd a'u gwybodaeth bersonol bob amser. Mae'r gweithwyr gofal wedi bod drwy broses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae uwch-aelodau o'r staff yn goruchwylio'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl fel y dylent. Mae'r holl weithwyr gofal yn derbyn cymorth a hyfforddiant a gallant gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl agored i niwed y maent yn eu cefnogi.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl.
Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn mynd at unrhyw uwch-aelod o'r staff, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol fel y swyddfa ddiogelu leol pe byddent o'r farn bod angen iddynt wneud hynny.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
Er nad oes galw am gymorth gan siaradwyr Cymraeg yn unig ar hyn o bryd, mae rhai aelodau o'r staff yn ddwyieithog ac mae'r rheolwr yn cytuno y byddai angen darparu Cynnig Rhagweithiol pe bai'r cartref yn cefnogi rhywun y byddai'n well ganddo gyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r rheolwr yn trefnu i ddatganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig y cartref

fod ar gael yn ddwyieithog; byddai hyn yn helpu pobl sy'n siarad Cymraeg i wneud penderfyniadau hyddysg am ddod i'r cartref. At hynny, ni fyddai'n rhaid i'r bobl ofyn am fersiynau Cymraeg wedyn.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd arbennig. Plasty yw'r prif adeilad sydd wedi'i leoli mewn 19 erw o goetir, ac mae bythynnod eraill, ar wahân i'r prif dŷ, â'u mynedfeydd a'u hiardiau unigol eu hunain. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus ac y gallant ddewis ardaloedd gwahanol i'w defnyddio: mae ardaloedd cymunedol amrywiol ar gael, yn ogystal â thiroedd eang lle y gall y bobl dreulio amser yn gweithio neu'n ymlacio gyda ffrindiau a pherthnasau. Mae ardal farbeciw yn yr ardd flaen ac mae pobl o gartrefi eraill y darparwr yn dod yno'n aml i fwynhau'r diwrnod.

Mae gan bob unigolyn ddwy ystafell, sef un ystafell wely ac un ystafell i ymlacio ynddi yn ystod y dydd. Mae rhai o'r bobl yn byw yn eu fflatiau eu hunain mewn adeiladau ar wahân, ger y prif dŷ. Mae pob ystafell yn fawr ac wedi'i phersonoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r unigolyn, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a darnau o gelfi. Mae pob ardal gymunedol wedi cael ei haddurno â lluniau a gwaith celf y bobl. Mae ystafell fwyta fawr gyda chadeiriau bwyta newydd ac mae cynlluniau ar waith i gael byrddau bwyta newydd er mwyn gwneud yr ardal yn fwy cartrefol a chymdeithasol.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Dim ond aelodau awdurdodedig o'r tîm o staff all gael gafael ar y cofnodion gofal. Caiff cofnodion personél cyflogeion a gwybodaeth bersonol arall, megis cofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, eu storio'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith, ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio menig a ffedogau wrth roi gofal personol. Mae allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff profion larwm tân eu cynnal bob wythnos. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae proses dda ar waith gan y rheolwr i oruchwylio'r gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd. Caiff trafodaethau rheolaidd eu cynnal â'r bobl yn y cartref, eu teuluoedd a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen.

Er bod y darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl, mae pwyslais ar gyflogi pobl sydd â'r agwedd gywir ac sy'n gallu cynnig amrywiaeth o sgiliau bywyd a diddordebau i'r tîm. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys gweithwyr gofal sy'n awyddus i ennyn diddordeb y bobl mewn garddwriaeth, gwaith pren a chelf a chrefft. Mae hyn wedi sicrhau bod aelodau'r tîm o staff yn uchel eu cymhelliant ac yn fedrus, a'u bod yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan eu disgrifiadau swydd er mwyn rhoi cymorth i'r bobl mewn ffyrdd amrywiol a chreadigol. At hynny, mae'r rheolwr yn awyddus i ddatblygu'r cartref ymhellach: er enghraifft, drwy ddatblygu'r ardal o goetir o flaen y tŷ, yr ardal arddwriaeth lle ceir twnnel polythen yn y cefn, a'r iardiau y tu allan i'r bythynnod i'r bobl eu mwynhau. Dangoswyd i ni hefyd yr ardaloedd a ddyluniwyd er mwyn cynnig cysgod i'r bobl nad ydynt yn hoffi eistedd yn yr haul pan fyddant y tu allan.

Mae'r lefelau staffio yn uchel ac mae'r cyfraddau cadw staff yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r bobl yn adnabod y tîm o staff yn dda a gwelsom fod cydberthynas dda rhyngddynt. Mae'r staff yn defnyddio hiwmor ysgafn ac yn dangos parch gwirioneddol at y bobl yn y cartref. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.'

Mae'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf, ynghyd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud bod hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o'u rolau a'u cyfrifoldebau, yn ogystal â'r ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl. Caiff pob agwedd ar y gwasanaeth ei chrynhoi fel rhan o ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol â'r cartref bob tri mis ac o fewn adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r gweithwyr yn trafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio a gynhelir bob tri mis.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/01/2024